www.food.gov.uk

ASIANTAETH SAFONAU BWYD

'Gwneud i Bob Arolygiad Gyfrif'

Cyngor Monitro Mewnol ar gyfer Rheolwyr Timau Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Awdurdodau Lleol

Asiantaeth Safonau Bwyd

Mae archwiliadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) o drefniadau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol wedi amlygu meysydd Gwasanaeth craidd sy'n hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol a gwella cydymffurfiad busnes bwyd. Mae'r arweiniad hwn yn amlygu rhai ystyriaethau syml ac ymarferol sydd wedi ymddangos amlaf mewn adroddiadau archwilio cyhoeddedig fel cryfderau allweddol neu feysydd i'w gwella.

Nod y crynodeb hwn yw rhoi gwybodaeth allweddol neu sbardunau i reolwyr Gwasanaeth awdurdodau lleol a allai helpu i reoli a monitro'r meysydd hyn.

Byddem yn falch o dderbyn unrhyw sylwadau am ddefnyddioldeb y cyngor hwn neu, yn ehangach, awgrymiadau ar gyfer unrhyw arweiniad ychwanegol a fyddai'n cael ei groesawu gan reolwyr Gwasanaeth awdurdodau lleol.

Y TÎM GORFODI CYFFREDINOL
rob.wilkins@foodstandards.gsi.gov.uk
delyth.murray-lines@foodstandards.gsi.gov.uk
andrew.morris@foodstandards.gsi.gov.uk

Meysydd Gwasanaeth Craidd

Mae rhaglenni archwilio FSA[1] wedi canolbwyntio'n fwyfwy ar 3 maes gwasanaeth sydd, o brofiad, yn hanfodol i reoli gwasanaethau'n effeithiol a chyflawni cydymffurfiad busnes. Ym mhob un o'r meysydd hyn, mae rhai cwestiynau sylfaenol i unrhyw reolwr:

1. Rheoli cronfeydd data

- A yw'r Gwasanaeth yn gwybod *pa fusnesau bwyd/bwyd anifeiliaid sydd yn ei ardal*?
- *A yw cronfa ddata bwyd/bwyd anifeiliaid yr ALl yn cael ei chynnal ac yn ddiweddar*?
- *A oes cofnodion digon manwl a chywir o weithrediadau busnes allweddol a'u hanes o gydymffurfio* yn cael eu cynnal a'u rheoli?

2. Arolygiadau/ymyriadau a chamau gweithredu dilynol

- A yw arolygiadau/ymyriadau'r ALl yn cael eu cynnal ar *amlder sy'n blaenoriaethu ac yn adlewyrchu'r risg* sy'n cael ei chyflwyno gan fusnesau bwyd unigol?
- A yw asesiadau arolygu yn nodi *ystyriaethau sylweddol busnesau nad ydynt yn cydymffurfio â chyfraith bwyd/bwyd anifeiliaid*, yn enwedig mewn perthynas â *systemau rheoli diogelwch* busnesau, ac a yw'r rhain yn cael eu cofnodi mewn ffeil?
- *A oes camau dilynol priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag achosion parhaus a/neu sylweddol o ddiffyg cydymffurfio yn effeithiol?*
- *A oes modd adalw cofnodion swyddogion o arsylwadau a wneir yn ystod arolygiadau/ymyriadau?*

3. Monitro gwasanaethau'n fewnol

- *A oes system ar waith i fonitro gweithgareddau gorfodi mewn modd ansoddol a meintiol, a sicrhau bod unrhyw ystyriaethau a nodir yn arwain at welliannau yn y Gwasanaeth?*

Dylai rheolwyr allu ateb yn gadarnhaol i bob un o'r cwestiynau hyn. Ymhelaethir ar y pwyntiau hyn dros yr ychydig dudalennau nesaf er mwyn helpu â'r broses hon.

[1] Mae adroddiadau FSA ar archwiliadau awdurdodau lleol unigol wedi'u cyhoeddi ac ar gael ar wefan yr Asiantaeth, ynghyd ag adroddiadau cryno'r rhaglen archwilio yn: http://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/auditreports/

Meysydd Gwasanaeth Allweddol: Ystyriaethau Allweddol a Phroblemau Cyffredin

Rheoli Cronfeydd Data

Mae cronfeydd data cyflawn, diweddar, cywir a dibynadwy o fusnesau bwyd/bwyd anifeiliaid[2] lleol yn hanfodol er mwyn galluogi rheolwyr i wybod am bob busnes perthnasol yn eu hardal a darparu'r sylfaen ar gyfer rhaglenni arolygu ac ymyrryd cynhwysfawr wedi'u seilio ar risg. Mae angen monitro a chynnal y cronfeydd data er mwyn sicrhau y gellir olrhain newidiadau i ddefnydd a pherchenogaeth busnesau, cau busnesau a busnesau newydd.

Ystyriaethau allweddol:

- Mae cronfeydd data yn destun gweithdrefnau a phrosesau rheoli cronfeydd data er mwyn *monitro cywirdeb y gronfa ddata safleoedd a'r cofnodion gweithredu/gwybodaeth sy'n cael eu mewnbynnu* a'u cynnal ar gyfer pob busnes, fel mater o drefn;

- Ambell waith, cynhelir gwiriadau i nodi unrhyw *anghysondebau rhwng cofnodion papur a chofnodion cronfeydd data* o fanylion arolygiadau, gweithgareddau gorfodi a chamau gweithredu.

SYLWER: *Mae protocolau archwilio a rhestrau gwirio cyhoeddedig FSA yn rhoi enghreifftiau o wiriadau mwy trylwyr y gellir eu cwblhau ar draws pob maes gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd/bwyd anifeiliaid, gan gynnwys adroddiadau rheoli cronfeydd data a luniwyd gan archwilwyr yr Asiantaeth i nodi unrhyw anghysondebau, anomaleddau a gwallau mewn data*[3]*.*

Problemau Cyffredin:

- **Busnesau wedi'u dyblygu ar y gronfa ddata electronig;**

- **Cofnodion y gronfa ddata o arolygiadau/ymyriadau yn anghyson â'r data mewn ffeiliau copïau papur (e.e. dyddiadau camau gweithredu, graddfeydd risg);**

- **Nid yw cofnodion data a/neu anghysondebau ac anghywirdebau yn cael eu monitro'n rheolaidd na'u canfod;**

- **Adroddiadau arolygu annarllenadwy wedi'u hysgrifennu â llaw yn cael eu sganio ar y system mewn 'swyddfeydd di-bapur'.**

[2] Busnesau sydd wedi'u cofrestru a'u cymeradwyo yn unol ag Erthygl 31(1b) ac Erthygl 31(2c) o 882, yn ôl eu trefn.
[3] Mae protocolau a rhestrau gwirio Archwilio FSA ar gael yn: http://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/auditscheme/auditdocs

Awgrymiadau Defnyddiol:

- Gwiriadau **croesgyfeirio rheolaidd o fusnesau yn y gronfa ddata safleoedd** yn erbyn rhestrau eraill o fusnesau lleol e.e.:

  - Gwefan y Swyddfa Brisio;
  - Gwefannau twristiaeth leol – rhestrau busnesau bwyd;
  - Cronfeydd mewnol eraill yr ALl e.e. Cynllunio, Trethi Busnes a Rheoli Adeiladu;
  - ALlau eraill sy'n cwmpasu'r un ardaloedd gweinyddol e.e. awdurdodau Dosbarth a Sirol;
  - 'Y Tudalennau Melyn' a chanllawiau arlwywyr ar y we (yn enwedig ar gyfer arlwywyr sy'n gweithio gartref a busnesau bwyd eraill 'llai amlwg');
  - Cynlluniau sicrwydd a weithredir gan y diwydiant.

- **Defnyddio cyfleuster adrodd rheolwr meddalwedd y gronfa ddata, neu daenlen syml, i fonitro ystyriaethau yn ymwneud â chysondeb a chwilio am anghysondebau neu anghywirdebau mewn cofnodion arolygu electronig yn rheolaidd – fel cofnodion eiddo dyblyg, gwallau mewnbynnau data a sgoriau graddfa risg amhriodol neu goll. Mae'r arweiniad yn yr Atodiad yn rhoi enghreifftiau sylfaenol o sut y gellir defnyddio taenlenni syml i amlygu ystyriaethau yn ymwneud â chysondeb.**

Arolygiadau/Ymyriadau Busnes

Rhaid i raglenni arolygu/ymyrryd fod yn seiliedig ar risg: mae asesiadau o reoli diogelwch bwyd/bwyd anifeiliaid busnesau a threfniadau rheoli yn ganolog i hyn.

Cadw cofnodion ALlau: mae dogfennau sy'n ddigonol fanwl, cywir ac y gellir eu hadalw ar gyfer gweithrediadau a gweithgareddau busnes allweddol, cofnodion arolygu ac asesu, yn enwedig mewn perthynas â system rheoli diogelwch bwyd, ac unrhyw weithrediadau gorfodi, yn hanfodol er mwyn:

- *dangos bod busnesau bwyd yn cydymffurfio â'r gyfraith;*
- sicrhau *bod swyddogion arolygu dilynol yn ymwybodol o hanes busnesau unigol o ran cydymffurfio;*
- *llywio pob cam o ddull gorfodi graddol;*
- darparu *sail dystiolaeth ar gyfer gorfodi ffurfiol; a*
- chaniatáu *monitro ansoddol mewnol* effeithiol.

Ystyriaethau allweddol:

- *Rhaglenni arolygu/ymyrryd cynhwysfawr* sy'n ystyried pob busnes perthnasol yn ardal yr ALl;
- Amlder arolygiadau/ymyriadau wedi'i *flaenoriaethu yn ôl y risg*;
- Mae gweithdrefnau arolygu a *chymhorthion cof*[4] yn rhoi digon o sbardunau i helpu i sicrhau bod arolygiadau yn effeithiol, ac yn *hwyluso cofnodion digon manwl* o ddata allweddol ar fusnesau, arolygiadau a chydymffurfiad – yn arbennig mewn perthynas â *systemau rheoli diogelwch bwyd/bwyd anifeiliaid* busnesau sydd wedi'u dogfennu;
- Mae swyddogion yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth y maent yn ei gorfodi, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau perthnasol – bod *swyddogion yn gymwys ac wedi'u hawdurdodi'n briodol* ar gyfer y busnesau y maent yn eu harolygu a'r ddeddfwriaeth y maent yn ei gorfodi;
- Y caiff *sefydliadau cymeradwy* eu *harolygu yn unol â'r ddeddfwriaeth benodol sy'n berthnasol*; y *glynir yn gaeth wrth y broses Gymeradwyo briodol* ac y *caiff manylion y gweithrediadau busnes a bwyd ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer sefydliadau Cymeradwy eu cadw ar ffeil*;
- Mae gweithredwyr busnesau bwyd yn derbyn *hysbysiad amserol o ganfyddiadau arolygiadau* ac yn gwybod pa gamau y mae angen eu cymryd (gan wahaniaethu'n glir rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion).

Problemau Cyffredin:

- Peidio ag ystyried pob busnes bwyd wrth lunio rhaglenni arolygu/ymyrryd blynyddol, yn enwedig busnesau lle mae'r arolygiad/ymyrraeth yn hwyr ac/neu'r rheiny a oedd â risg isel pan gawsant eu harolygu ddiwethaf, ond nad ydynt wedi'u hailasesu ers rhai blynyddoedd;
- Arolygu busnesau â risg is cyn y rhai sydd â risg uchel hysbys, ac/neu ar draul dilyn problemau parhaus â busnesau risg uwch i fyny a mynd i'r afael â nhw;
- Peidio â mynd i'r afael a diffyg cydymffurfio cyson neu faith yn effeithiol nac unrhyw fonitro gan reolwyr llinell;
- Cofnodion aneglur/minimol o arolygiadau/ymyriadau nad ydynt yn ddigonol i lywio arolygiadau/ymyriadau a chamau gweithredu dilynol, yn enwedig pan fo'r rhain yn disgyn i swyddog gwahanol;

[4] Gellir lawrlwytho Ffurflenni Arolygu Hylendid Bwyd a Chymhorthion Cof LACORS o: http://www.lacors.gov.uk/lacors/ContentDetails.aspx?id=7762

- Asesiadau cymeradwyo yn cael eu cynnal fel ymarferion bwrdd gwaith nad ydynt yn glynu wrth y 'broses briodol' ac/neu heb ystyried gofynion penodol y ddeddfwriaeth berthnasol yn ddigonol (e.e. trwy ddefnyddio ffurflenni/cymhorthion cof cyffredinol ar gyfer arolygiadau/ymyriadau);

- Darllenadwyaeth adroddiadau arolygiadau/ymyriadau wedi'u hysgrifennu â llaw, a pheidio â gwahaniaethu'n glir rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion;

- Adroddiadau/llythyrau am arolygiadau/ymyriadau nad ydynt yn nodi'r camau gweithredu dilynol ac/neu'r amser a ganiateir ar gyfer gwaith adferol;

- Methiant awdurdodau gwladol i ystyried a chymryd camau priodol mewn perthynas â bwyd anifeiliaid a/neu fwyd mewnforiedig, gan gynnwys cysylltiad priodol rhwng awdurdodau.

Awgrymiadau Defnyddiol:

- **Ffurflenni arolygiadau/ymyriadau yn cynnwys 'taflen crynodeb arolygu/gorfodi'** i roi crynodeb clir a chryno sy'n hawdd ei adalw o'r ystyriaethau allweddol ar gyfer yr arolygiad/ymyriad nesaf, heb fod angen i'r swyddog chwilio trwy'r holl gofnodion perthnasol mewn ffeiliau/cronfeydd data. Yn werthfawr fel dull o amlygu unrhyw ystyriaethau pwysig y mae angen eu gwirio ymhellach, i hwyluso dull graddedig o orfodi ac fel cyfeirbwynt ar gyfer monitro mewnol.

- **Mae 'gorchudd allanol' ar ffeiliau papur/ffeiliau electronig safleoedd yn rhoi crynodeb hygyrch o fanylion allweddol cyn-arolygiad/ymyriad:**

  - Enw a chyfeiriad perchennog y busnes bwyd;
  - Manylion cyswllt/rheolwyr (a/neu ffurflen gofrestru gyfredol y busnes);
  - Maint/graddfa a phrif weithrediadau bwyd y busnes;
  - Crynodeb o reolaeth diogelwch bwyd a lefelau cydymffurfiad cymhwysedd/hyfforddiant staff;
  - Data olrheiniadwyedd Erthygl 18 – prif gyflenwyr/gwsmeriaid;
  - 'Fflagio' ystyriaethau sylweddol – lle bo hynny'n briodol.

- **Lle mae cynlluniau 'Scores on the Doors' (SotD) ar waith, mae ffurflenni arolygu yn cynnwys rhan i swyddogion grynhoi'r rhesymau am y sgôr a ddyfernir ac unrhyw feysydd lle mae diffyg cydymffurfio.** Mae hyn yn darparu gwiriad monitro a chysondeb cyflym a defnyddiol i reolwyr.

- **Sicrhau bod *'Bwyd mwy diogel, busnes gwell'* (SFBB) yn cael ei gynnig yn ddethol i fusnesau penodol ac nid yn lle systemau rheoli diogelwch bwyd presennol sy'n cyflawni rheolyddion boddhaol.** Fel gydag unrhyw system rheoli diogelwch bwyd, dylai swyddogion herio systemau SFBB er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.

Camau Dilynol a Gorfodi

Dylai ALlau fod â'r gallu i ddefnyddio'r ystod lawn o gamau gorfodi sydd ar gael, o gymorth a chyngor i gamau cyfreithiol. Dylid dechrau camau gorfodi ffurfiol lle nad yw cymorth neu gyngor anffurfiol naill ai'n briodol (oherwydd difrifoldeb a/neu natur barhaus y methiannau) neu pan nad yw cyngor wedi cyflawni ymateb boddhaol dros gyfnod rhesymol o amser. Mae angen mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio difrifol a/neu barhaus yn effeithiol er mwyn amddiffyn defnyddwyr a galluogi busnesau eraill i gystadlu'n deg.

Ystyriaethau allweddol:

- Gweithredir yn erbyn achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodir, ac ***eir i'r afael â phob achos o ddiffyg cydymffurfio sylweddol mewn modd amserol ac effeithiol***;

- *Defnyddir dull gorfodi*, yn unol â pholisïau gorfodi lleol a chanllawiau cenedlaethol, sy'n *briodol i ddifrifoldeb a natur barhaus y troseddau*;

- Caiff unrhyw benderfyniadau i wyro oddi wrth y dull a bennir yn y polisi gorfodi eu hystyried yn briodol a chaiff y rhesymau eu cofnodi. Fel arfer, dylid cyfeirio unrhyw weithredu, neu ddiffyg gweithredu, arfaethedig gan swyddog nad yw'n cydymffurfio â pholisi gorfodi awdurdod ar gyfer cytundeb lefel uwch;

- Caiff y *broses gyfreithiol briodol* ar gyfer pob un o'r ystod o ddewisiadau gorfodi ffurfiol ei dilyn yn llwyr;

- Caiff hysbysiadau ffurfiol eu *dilyn i fyny mewn modd amserol* (h.y. yn uniongyrchol ar ôl y dyddiad y daw i ben), gyda'r rhagdybiaeth y bydd *camau gorfodi yn dilyn os bydd y diffyg cydymffurfio yn parhau*.

Problemau Cyffredin:

- Gadael busnesau sydd â lefelau cydymffurfio gwael – peidio â mynd i'r afael â'r achosion o ddiffyg cydymffurfio difrifol a nodir a graddfeydd risg gwael cyson;

- Peidio â defnyddio dull graddol o orfodi a/neu ddefnyddio'r ystod lawn o offer gorfodi;

- Cynyddu camau gorfodi sy'n cael eu tanseilio gan fylchau yng nghofnodion yr ALl o hanes cydymffurfio busnes a diffyg tystiolaeth ddogfennol, yn enwedig lle bu newidiadau i'r staff;

- Diffyg camau gweithredu dilynol amserol a fyddai'n caniatáu gorfodi gofynion yr hysbysiad e.e. gwiriadau pan ddaw hysbysiadau ffurfiol i ben;

- Trin symptomau diffyg cydymffurfio ('ateb byrdymor') yn hytrach na mynd i'r afael â'r achos sylfaenol, gan arwain at broblemau mynych a pharhaus.

Awgrymiadau Defnyddiol:

- **Cynadleddau achos rheolaidd (e.e. misol) rhwng rheolwyr a staff**. Er enghraifft, i drafod cynnydd pob busnes â risg uchel yn ardal pob swyddog o ran cydymffurfio;

- Cynnwys adran ***'adolygiad gorfodi'*** ar bob ffurflen/ffeil arolygu er mwyn i swyddogion roi rhesymau cryno am unrhyw gamau a gymerwyd/na chymerwyd, i hysbysu unrhyw swyddogion arolygu dilynol ac i hwyluso gwiriadau cysondeb rheolwyr yn erbyn y polisi gorfodi lleol;

- ***Ymgynghori â gwasanaethau cyfreithiol*** yn gynnar mewn camau gorfodi ffurfiol er mwyn sicrhau y gall achosion fodloni'r holl feini prawf tystiolaethol a threfniadol, ac i osgoi unrhyw her 'dechnegol' ddiangen i achosion â sail dda iddynt;

- Llunio ***rhestrau gwirio gorfodi ffurfiol*** er mwyn sicrhau y caiff y broses briodol ei gwirio cyn pob cam o'r camau ffurfiol (e.e. addasu rhestrau gwirio archwilio priodol yr Asiantaeth i gynnwys meini prawf y Polisi Gorfodi lleol, a'u defnyddio *cyn* cyflwyno rhybudd);

- Dylai swyddogion drefnu a chofnodi ***ymweliadau dilynol/gwiriadau cydymffurfio yn erbyn rhybuddion/camau gweithredu ffurfiol*** mewn dyddiadur er mwyn sicrhau y cânt eu ***cwblhau'n brydlon*** (ac y caiff y busnes ei hysbysu am y dyddiadau hyn yn yr adroddiad arolygu priodol neu'r llythyr yn esbonio'r rhybudd, lle bo hynny'n briodol);

- Sicrhau bod gan bob swyddog awdurdodedig raglen briodol o ***ddatblygu proffesiynol parhaus***.

Monitro Gwasanaethau Mewnol

Mae ALlau yn cynnal gwiriadau monitro mewnol er mwyn gwirio eu bod yn cydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol, arweiniad swyddogol a'u polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain ar draws yr ystod lawn o weithgareddau gwasanaeth. Hefyd, mae manteision amlwg i gymryd rhan mewn unrhyw adolygiad cymheiriaid a/neu gynllun archwilio rhyngawdurdodol (IAA) perthnasol a chadarn at ddibenion gorfodaeth gyson, er mwyn nodi arfer da y gellir ei fabwysiadu a nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

Ystyriaethau allweddol:

- Mae pob gweithgaredd perthnasol y gwasanaeth yn destun *monitro ansoddol a meintiol cymesur a rheolaidd* fel y gall y Gwasanaeth ddangos ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth, codau ymarfer[5], y Safon[6] ac arweiniad swyddogol;

- *Cedwir cofnodion priodol a chymesur i wirio arolygiaeth rheolwyr* o wasanaethau a chamau gweithredu allweddol y gwasanaeth, a'r *camau a gymerir i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodir*.

Problemau Cyffredin:

- *Monitro annigonol o ansawdd y gwaith* o ganlyniad i bwyslais monitro ar nifer yr arolygiadau;

- *Monitro anhyblyg ac anghymesur*, nad yw'n cael ei amrywio a'i deilwra'n unol â risgiau personél neu safleoedd (gan roi gofynion diangen ar reolwyr yn aml i fodloni 'lefelau hollgynhwysfawr' ac amlderau a bennir mewn gweithdrefnau lleol);

- *Monitro heb ei ddogfennu* – nid yw rheolwyr yn gallu dangos y problemau a nodwyd ac yr aethpwyd i'r afael â nhw trwy eu gwaith monitro, ac felly'r camau a gymerwyd i adeiladu achos ar gyfer unrhyw gamau gweithredu pellach.

[5] Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd: http://www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/foodlawcop/codepracticewales/
Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid: http://www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/feedlawcop/
[6] Y Safon archwilio yn y 'Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd Awdurdodau Lleol': http://www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree/

Awgrymiadau Defnyddiol:

- **Ymarferion cysondeb o fewn ac ar draws awdurdodau** e.e. ystod o sefyllfaoedd busnes er mwyn galluogi cymhariaeth o asesiadau swyddogion. Gallai'r rhain gynnwys:
  - ❖ Sgoriau risg;
  - ❖ Penderfyniadau gorfodi;
  - ❖ Graddfeydd 'Scores on the Doors' (SotD) a chynlluniau cyfwerth.

- **Ffocws ar fonitro ansoddol a gwelliannau mewnol** (yn hytrach na gwiriadau meintiol ar nifer y gweithgareddau a gwblheir yn unig) e.e. monitro tueddiadau mewn proffiliau risg busnesau ac ansawdd arolygiadau/ymyriadau swyddogion[7].

- **Dull monitro ansoddol mewnol 'wedi'i seilio ar risg'** e.e. mwy o bwyslais ar feysydd problemus gwybyddus (unrhyw broblemau ag aelodau penodol o'r staff a chyfran uwch o fusnesau â risg uwch) yn hytrach na dull anhyblyg '10% o'r ffeiliau'.

- **Defnyddio technegau archwilio bwrdd gwaith gan ddefnyddio'r gronfa ddata safleoedd bwyd a amlinellir yn yr *Atodiad***. Gallai hyn ddarparu ffordd gyflym a rhwydd o groeswirio e.e.:
  - ○ sgoriau risg swyddogion;
  - ○ cyfanswm a mathau'r busnesau ym mhob categori risg;
  - ○ nifer a chategorïau risg unrhyw arolygiadau hwyr;
  - ○ nifer fras y busnesau sy'n gyffredinol gydsyniol;
  - ○ risg busnes yn gymesur â lefel awdurdodiad a chymhwysedd y swyddog arolygu;
  - ○ data SotD – unrhyw anghysonderau rhwng cofnodion y gronfa ddata a chofnodion cyhoeddedig.

- **Cynhyrchu adroddiadau'n rhestru hanesion graddfeydd risg diweddar busnesau â risg uchel** (e.e. y 3 diwethaf – gan ddefnyddio taenlenni yn debyg i rai 'Excel', lle bo hynny'n bosibl). Gall rheolwyr nodi ac archwilio'r rhesymau pam y mae unrhyw fusnes yn parhau'n risg uchel dros gyfres o arolygiadau.

- **Dirprwyo rhai gweithgareddau monitro rheolaidd** – annog yr holl staff y gymryd rhan mewn hunanfonitro a gwirio eu gwaith ei gilydd: llythyrau, rhybuddion, diweddaru gorchuddion allanol ffeiliau ac ati.

- **Mae gweithgareddau monitro sy'n gweithio'n dda i lawer o awdurdodau yn cynnwys**:
  - ❖ arolygiadau yng nghwmni rhywun;
  - ❖ adolygiadau o waith papur ôl-arolygu
  - ❖ ymweliadau ôl-arolygu â sefydliadau gan reolwyr;
  - ❖ adolygiadau rheolwyr o'r holl weithgareddau gorfodi, gan gynnwys gwiriadau yn erbyn yr arweiniad perthnasol a pholisi gorfodi;
  - ❖ cyfarfodydd rheolaidd am y llwyth achosion.

[7] Gellir lawrlwytho 'dogfen fonitro' LACORS o:
http://www.lacors.gov.uk/lacors/ContentDetails.aspx?id=21650

Yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Achos o E.coli 0157 yn Ne Cymru yn 2005

Argymhellion Adroddiad yr Ymchwiliad yn Ymwneud ag Arolygiadau Hylendid Bwyd:

- Dylai cyrff rheoleiddio a gorfodi adolygu'r dewis o orfodi 'llai manwl' ar gyfer busnesau bwyd unigol yn gyson (Argymhelliad 7).

- Rhaid i'r gwaith o arolygu cynlluniau HACCP fod yn seiliedig ar archwiliadau (8).

- Dylid datblygu'r ddarpariaeth hyfforddiant er mwyn sicrhau bod gan bob swyddog sy'n gwirio HACCP a chynlluniau wedi'u seilio ar HACCP y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol, gan gynnwys y rheiny sy'n gyfrifol am arolygu gwaith y swyddogion hynny (9).

- Dylai Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd gael copi o HACCP/cynllun rheoli diogelwch bwyd busnes ym mhob arolygiad, a'i gadw yn ffeil arolygu'r busnes (10).

- Dylai system ar gyfer cofnodi ystyriaethau, pryderon neu broblemau posibl fod yn arfer safonol, boed hynny trwy "fflagio" dogfennau penodol neu gadw nodiadau ffeil (11).

- Dylai penderfyniadau am hyder yn y modd y mae busnes yn rheoli diogelwch bwyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth (12).

- Rhaid i bob arolygiad, cynradd ac eilaidd, fod yn ddirybudd, ac eithrio pan fo amgylchiadau penodol a chyfiawnadwy neu resymau pam y mae angen trefnu ymweliad ymlaen llaw (13).

- Rhaid i drafodaeth â gweithwyr fod yn rhan safonol o ymweliadau arolygu hylendid bwyd (14).

- Dylai'r Asiantaeth Safonau Bwyd ddatblygu dull o asesu'r modd y mae awdurdodau lleol yn cynnal arolygiadau hylendid bwyd, fel rhan o'i chynllun archwilio neu atodiad iddo, gan gynnwys asesu HACCP a chynlluniau wedi'u seilio ar HACCP (15).

ATODIAD

Defnyddio taenlen i fonitro ymyriadau a chywirdeb cronfeydd data

1. Mae Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (CYCB) yn cynnwys rheolau a chanllawiau rhifol ar gyfer pennu sgoriau risg sefydliadau. Gellir defnyddio'r rheolau hyn i fonitro cysondeb a chywirdeb wrth gofnodi gweithgareddau ymyrryd amrywiol. Gall allforio'r gronfa ddata safleoedd bwyd, ac unrhyw ddata cysylltiedig, i daenlen ddarparu dull cyflym ac eithaf rhwydd o groeswirio ystod o wahanol baramedrau sy'n gysylltiedig ag ymyriadau sefydliadau bwyd a sgoriau a graddfeydd risg cysylltiedig. Mae angen gwybodaeth sylfaenol am sut i ddefnyddio'r feddalwedd (e.e. Excel).

2. Mae'r ciplun gyferbyn yn dangos sut y gallai taenlen edrych wedi i'r data gael ei fewnforio.

3. Mae'r enghreifftiau isod at ddibenion enghreifftiol yn unig – gellir cwblhau ystod eang o wiriadau grymus ac effeithiol iawn wedi i chi ddeall yr egwyddorion sylfaenol.

4. Mae sawl ffordd o drefnu a thagio penawdau'r colofnau, gan ddibynnu ar y data y gall awdurdod ei fewnforio. Po fwyaf y mathau o ddata y gellir eu mewnforio, po fwyaf yw'r ystod o ddadansoddiadau y gellir eu gwneud a'r manteision posibl. Mae Excel yn darparu dull hawdd o drefnu ac aildrefnu data yn rhifol ac yn nhrefn yr wyddor er mwyn caniatáu gwiriadau monitro syml a helpu i nodi unrhyw safleoedd sydd wedi'u dyblygu. Cymerwyd pob un o'r enghreifftiau canlynol o gronfeydd data awdurdodau lleol, a gyflwynwyd fel rhan o'r broses archwilio, ac mae pob un ohonynt yn amlygu rhai o'r ystyriaethau posibl a ddatgelwyd:

Enghraifft 1

A	B	C	Ch	D	Dd	E	F	Ff	G	Ng	H	I	L	Ll
Enw'r Safle	**Cyfeiriad**	**S1**	**S2**	**S3**	**Grŵp agored i niwed**	**Hylendid**	**Strwythur**	**HmRh**	**Risg Syl.**	**Cyfanswm**	**Cat. Risg**	**Arolygiad/Gradd Ddiwethaf**	**Arolygiad Nesaf**	**Diwrnodau**
Y Siop Gacennau	Stryd Ioan	5	0	5	22	5	10	5	20	72	B	20 Meh 08	20 Meh 09	365.00
Ysgol Gynradd	Stryd Dafydd	5	0	5	22	5	10	5	20	72	B	20 Meh 08	20 Meh 09	365.00

5. Roedd yr awdurdod hwn yn gallu allforio data gan gynnwys enw a chyfeiriad y safle (colofn A a cholofn B yn ôl eu trefn); dadansoddiad o'r sgôr risg gyffredinol, yn unol ag Atodiad 5 y CYCB (colofnau C - G); cyfanswm a graddfa risg gyffredinol (colofnau Ng a H), a dyddiad yr arolygiad diwethaf a'r arolygiad nesaf (colofnau I ac L). Trwy fewnbynnu fformiwla syml yn y bar fformiwlâu yn y feddalwedd Excel, roedd yr asesydd yn gallu ychwanegu colofn newydd (Ll), a oedd yn cyfrif nifer y dyddiau rhwng yr arolygiad diwethaf a'r arolygiad nesaf. Yn y ddau achos hyn, nifer y dyddiau rhwng y 2 ddyddiad yw 365, sy'n cyfateb yn gywir i amlder arolygu lleiaf o flwyddyn, sy'n ofynnol ar gyfer sefydliad categori B. Ar gyfer safle categori A h.y. amlder arolygu lleiaf o 6 mis, byddech yn disgwyl gweld tua 182 diwrnod, byddai categori C yn 547 diwrnod, categori D yn 730 diwrnod ac ati.

6. Yn yr enghraifft hon, y prif bryder fyddai dyrannu 20 o bwyntiau ychwanegol (colofn G), gan nodi risg sylweddol o fwyd yn cael ei halogi ag organebau pathogenaidd. Dywed y CYCB os yw'r sgôr ar gyfer hyder mewn rheolaeth (colofn Ff) yn 0 neu'n 5, yna ni ddylai'r 20 pwynt ychwanegol ar gyfer risg sylweddol fod yn bosibl, a rhaid bod un o'r sgoriau'n anghywir. Efallai y bydd y rheolwr yn dymuno codi'r mater hwn gyda'r swyddog dan sylw i drafod y rhesymau am y cofnod hwn.

Enghraifft 2

A	B	C	Ch	D	Dd	E	F	Ff	G
Cyf	Enw Masnachu	Cyfeiriad	Graddfa Risg	Arolygiad Diwethaf	Nesaf yn Ddyledus	Sgoriau	Sylwadau	Nifer y DYDDIAU	Hwyr?
9.99E+11	Y Penfras Hallt	Stryd y Castell	B	07/12/2006	07/12/07	70	cat anghywir?	365.00	Hwyr
999000075927	Y Gangen Olewydden	Stryd Kray	B	16/08/2007	15/08/08	70	cat anghywir?	365.00	Iawn

7. Yn enghraifft 2, roedd yr awdurdod yn gallu rhoi rhif cyfeirnod a chyfeiriad safle. Mae'r asesydd wedi gallu nodi bod y raddfa risg (colofn Ch) a roddwyd i'r safle yn seiliedig ar y sgôr risg gyffredinol (colofn E) wedi'i dyrannu'n anghywir. Rhoddwyd graddfa risg categori B i'r ddau sefydliad, gan arwain at ddyddiad ymweld nesaf o 12 mis (colofn Ff), er eu bod wedi sgorio 70 yn unig, a ddylai fod yn gategori C, gyda dyddiad ymweld nesaf o 18 mis yn y dyfodol. Yn yr achos hwn, darganfuwyd fod problem yn y modd yr oedd meddalwedd yr awdurdod wedi'i ffurfweddu, a gywirwyd yn ddiweddarach. Crëwyd colofn F i alluogi'r asesydd i ychwanegu sylwadau cyffredinol ar unrhyw ganfyddiadau, a chrëwyd colofn G gan ddefnyddio fformiwla syml i gyfrifo p'un a oedd arolygiadau sefydliadau yn hwyr ai peidio, yn seiliedig ar ddyddiad yr asesiad archwilio.

Enghraifft 3

A	B	C	Ch	D	Dd	E	F	Ff	G	Ng	H	I	L	Ll
Cyfeiriad	**DYDDIAD GRADDIO**	**YMWELIAD NESAF**	**Dyddiau**	**Swy**	**Cyf**	**Cat**	**S1**	**S2**	**S3**	**S4**	**S5**	**S6**	**S7**	**S8**
Cylch Chwarae	18 Awst 08	18 Awst 10	730.00	DP	37	D	5	0	5	22	0	0	0	0
Llew Coch	19 Awst 08	19 Awst 10	730.00	LA	50	C	10	0	5	0	5	0	30	0

8. Yn yr enghraifft derfynol hon, mae'r awdurdod wedi gallu darparu manylion y swyddog a gyflawnodd yr ymyriad hefyd (colofn D). Gall hyn fod yn ddefnyddiol o ran cadarnhau bod ymyriadau yn cael eu cyflawni gan swyddogion priodol sydd â'r lefel gywir o hyfforddiant ac awdurdodiad. Roedd yr asesydd yn gallu gweld bod y safle cyntaf, y Cylch Chwarae, wedi cael 22 o bwyntiau ychwanegol, sy'n gysylltiedig â chyflenwi grwpiau sy'n agored i niwed, er iddo sgorio 5 yn unig ar gyfer y math o fwyd a'r dull o'i drin (colofn F) h.y. trin bwydydd â risg is yn unig. Nodwyd bod y Llew Coch wedi sgorio 30 ar gyfer hyder mewn rheolaeth (colofn L) h.y. er gwaethaf cael ei ddisgrifio â safon uchel o gydymffurfiad ar gyfer hylendid (colofn H) a strwythur, sef colofn I. Ni fyddai'r un o'r enghreifftiau sgorio hyn yn gyson â'r arweiniad a roddir yn Atodiad 5 y CYCB.